## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog - Diweddariad Gorffennaf 2024

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ddod o hyd i atebion hirdymor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng nghymunedau Porthmadog a Thremadog, gan ddarparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach ar yr un pryd.

Ers ein diweddariad diwethaf ym mis Hydref 2023, rydym wedi bod yn edrych drwy'r holl wybodaeth sydd ar gael inni er mwyn cynhyrchu rhestr fer o opsiynau o ddulliau o reoli perygl llifogydd hirdymor ym Mhorthmadog a hynny mewn modd cynaliadwy.

Mae ein gwaith cyfredol yn cynnwys edrych ar y gwahanol ddatrysiadau a fydd yn ymdopi â'r cynnydd yn lefel y môr sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, mwy o ddigwyddiadau stormydd ac ymchwydd llanw a risgiau cynyddol o law a digwyddiadau llifogydd o afonydd. Rydym yn ddiolchgar i pawb am yr wybodaeth a ddarparwyd inni hyd yma, sydd wedi ein helpu i asesu pob opsiwn posibl gan ddefnyddio modelu cyfrifiadurol.

Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar sut y gallwn sicrhau ein bod yn diogelu cymunedau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd ac ar yr un pryd diogelu'r amgylchedd.

Mae'n bwysig ein bod yn treulio mwy o amser yn cwblhau'r gwaith gwerthuso hwn, er mwyn inni allu dod draw i'r sesiynau ymgynghori cyhoeddus nesaf yn ddiweddarach eleni gyda'r holl wybodaeth y bydd pobl eisiau ei gweld, yn barod i ateb yr holl gwestiynau fydd ganddynt a chael trafodaethau defnyddiol gyda hwy am yr opsiynau sy'n bosibl. Yn ystod y cam ymgynghori byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb i roi cyfle i sefydliadau partner a phreswylwyr rannu eu barn ynglŷn â'r opsiynau.

Mae croeso i chi gysylltu os hoffech chi ddarganfod mwy a pharhau i rannu eich barn a'ch syniadau gyda thîm y prosiect. Gallwch anfon e-bost at: risgllifogydd.porthmadog@grasshopper-comms.co.uk neu ffonio Andrew Basford, Rheolwr Prosiect (Dysgwr Cymraeg) ar 03000 65 3846 neu Sharon Parry, Swyddog Cymorth Tîm y Prosiect (Siaradwr Cymraeg) ar 03000 65 5264.